

Llanymddyfri

**Pam Cerdded?**

Mae Llanymddyfri yn un o gyrchfannau mwyaf poblogaidd Sir Gaerfyrddin gan y sawl sy'n dwlu ar weithgareddau awyr agored. Mae'r dref yn fan cyfarfod poblogaidd i feicwyr, cerddwyr, canŵ-wyr a selogion beiciau modur sy'n gwerthfawrogi pa mor ddymunol yw'r dref a'r ardal wledig o'i chwmpas.

**Pa mor Hir?**

Mae'r daith gerdded ychydig dros 5 cilometr (ychydig dros 3 milltir) gan ddringo 52 metr (170 troedfedd) yn unig. Caniatewch 2 awr.

**Pa mor Anodd?**

Mae hon yn daith gerdded gymharol hawdd dros dir gwastad y bydd y rhan fwyaf o gerddwyr yn ymdopi â hi'n gyfforddus. Mae rhannau o'r daith yn croesi caeau felly argymhellir esgidiau addas at yr awyr agored.



Man Cychwyn - Y prif faes parcio yn Llanymddyfri ger y castell.



Parcio - Prif faes parcio'r dref



Trafnidiaeth Gyhoeddus - ✓



Lluniaeth - ✓


1 Tref Llanymddyfri

Lleoliad tref Llanymddyfri ar fan pontio pwysig ar afon Tywi sy'n gyfrifol am ei tharddiad. Cafodd hyn ei gydnabod gan y Rhufeiniaid a sefydlodd gaer a chan y Normaniaid a adeiladodd y castell. Mae gan y dref hanes hir fel tref farchnad, a gwaddol dyddiau'r porthmyn yw'r tafarndai niferus sydd yn y dref.

2 Castell Llanymddyfri

Bu'r castell yn gadarnle Cymreig a Normanaidd, ac mae'r tŵr crwn neu'r gorthwr dal yno, ynghyd â wal gragen o'r drydedd ganrif ar ddeg. Dargyfeiriwyd nant fechan, Dyfri, i ffurfio ffos llawn dŵr o amgylch y castell.

Mannau o ddiddordeb

**3 Stryd Cerrig**

Codwyd Neuadd y Dref yn 1858, gyda Siambr y Cyngor uwchlaw marchnad agored. Mae Cloc y Dref ar hen Neuadd y Farchnad, a adeiladwyd degawd yn gynharach. Roedd traddodiad hir o wneud clociau yn y dref.

4 Nant Bawddwr

Deillia enw Llanymddyfri o'r afon leiaf o blith y rheiny yng nghyffiniau'r dref. Roedd yn garthffos agored ar un adeg - does dim rhyfedd mai Bawddwr oedd yr enw arni bryd hynny. Yn 1836 fe'i rhoddwyd mewn cwlfer bwaog a gosodwyd wyneb ar y strydoedd.

5 Llinell Rheilffordd Canol Cymru

Roedd Llanymddyfri yn ganolfan bwysig i goetsis ar y ffordd dyrpeg o Lundain (yr A40 erbyn hyn). Pan gyrhaeddodd y rheilffordd Lanymddyfri yn 1858, roedd yn ergyd farwol i fasnach y porthmyn a'r coetsis post.

6 Caer Rufeinig a Ffordd Rufeinig

Mae'r llwybr troed yn dilyn rhan o'r Ffordd Rufeinig a oedd yn arwain i'r gogledd-orllewin tua'r gaer nesaf ym Mhumsaint, a warchodai'r mwyngloddiau aur Rhufeinig.

7 Afon Tywi

A hithau'n 120 cilometr o hyd (75 milltir), afon Tywi yw'r

afon hiraf y mae pob rhan ohoni yng Nghymru. Mae'n enwog am ei physgota Brithyll Môr (Sewin yw'r enw lleol) ac Eog. Tardda yn ucheldir Mynyddoedd y Cambria, cyn troelli drwy ddyffrynnoedd culion i wastatioedd eang. Mae canrifoedd o lifogydd gaeafol wedi creu pridd gwaddodol ar waelod y dyffryn, gan gynhyrchu'r borfa irlas sy'n cynnal diwydiant llaeth y sir. Llifa'r afon i Fae Caerfyrddin a chwrdd â'r môr yn Llansteffan.

8 Y Bont Gadwyn

Dylanwadwyd yn drwm ar ddyluniad y bont gadwyn grog wreiddiol a adeiladwyd yn 1832 gan bont grog Telford dros y Fenai. Codwyd pont newydd yn ei lle yn 1883, ond cyfeirir at y bont bresennol o hyd fel y Bont Gadwyn.

9 Eglwys Sant Dingat h

Yn ôl pob tebyg, mae corff yr Eglwys a'r gangell yn dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg. Mae'n debygol fod y tŵr o'r bymthegfed ganrif. Awgryma'r cysegriad fynwent gynnar, cyn-Normanaidd. Roedd Dingat yn un o feibion Brychan, pennaeth o dras Gwyddelig o'r chweched ganrif a sefydlodd Brycheiniog yn is-deyrnas iddo ef ei hun.

#DymaSirGar

#ThisisCarmarthenshire

darganfodsirgar.com • discovercarmarthenshire.com